# Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon

# Adroddiad Blynyddol 2020/21

_____

**Adeilad yr Institiwt,**

**Allt Pafiliwn,**

**Caernarfon,**

**LL55 1AS**

**01286 672943**

**Oriau Agor**

**9.00 a.m. – 5.00 p.m. Llun – Gwener**

**clercydref@cyngortrefcaernarfon.llyw.cymru**

**townclerk@caernarfontowncouncil.gov.wales**

# (1) Cyflwyniad

Diben yr adroddiad hwn yw cyflwyno gwybodaeth am weithgareddau Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon yn ystod 2020/21. Mae'n cynnwys amlinelliad byr o strwythur y Cyngor, trosolwg o weithgareddau'r Cyngor gydol y flwyddyn, a chrynodeb ariannol. Mae'r adroddiad yn esbonio sut mae'r Cyngor yn cyfrannu at les ei ardal yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae manylion am bob Cynghorydd Tref, aelodau'r staff, a manylion cysylltu â'r Cyngor yn cael eu cynnwys.

# (2) Cefndir

Mae'r Cyngor yn cynnwys 17 Aelod (Cynghorwyr) sy'n cynrychioli pedair Ward, fel a ganlyn:

- **Ward Peblig** – 5 aelod;

Y Cynghorwyr Eiriona Hughes (Annibynnol), Brenda Owen (Plaid Cymru), W. Tudor Owen (Plaid Cymru), Jason W. Parry (Annibynnol), Kenny Richards (Plaid Cymru)

- **Ward Seiont** – 4 aelod;

Y Cynghorwyr W. Roy Owen (Annibynnol), Keith Jones (Annibynnol), Cai Larsen (Plaid Cymru), Richard Thomas (Plaid Cymru)

- **Ward Menai** – 4 aelod;

Y Cynghorwyr Wil Lloyd Davies (Plaid Cymru), Ann Hopcyn (Plaid Cymru), Eleri Lovgreen (Plaid Cymru), Ioan Thomas (Plaid Cymru)

- **Ward Cadnant** – 4 aelod.

Y Cynghorwyr Cemlyn Williams (Plaid Cymru), Dawn Lynne Jones (Plaid Cymru), Maria Sarnacki (Plaid Cymru), Stuart Sage (Annibynnol)

Mae'r Cyngor yn ethol Maer a Dirprwy Faer bob blwyddyn, ac yn gymorth iddynt redeg gwasanaethau'r Cyngor mae 4 aelod o staff gweinyddol a gweithredol llawn-amser a rhan-amser:

- **Clerc a Swyddog Priodol y Cyngor** – Sion Wyn Evans
- **Dirprwy Glerc** – Dewi Wyn Jones
- **Gofalwr** - Andy Rowlands
- **Swyddog Cynnal a Chadw** – Ken Owen

**Swyddi Dinesig**

**Maer** – Y Cynghorydd William Tudor Owen (2020/21). Etholwyd y Cynghorydd Maria Sarnacki yn Faer ar gyfer 2021/22.

**Dirprwy Faer** - Y Cynghorydd Maria Sarnacki. Etholwyd y Cynghorydd Cai Larsen yn Ddirprwy Faer ar gyfer 2021/22.

**Brysgyllwr** - swydd yn parhau'n wag

Mae gan y Cyngor strwythur pwyllgorau, sef:

- Cyngor Llawn;
- Pwyllgor Cynllunio;
- Pwyllgor Adloniant;
- Pwyllgor Cyllid;
- Pwyllgor Gwaith;
- Pwyllgor Personél.

Mae pob pwyllgor (ar wahân i'r Pwyllgor Cynllunio) yn cyflwyno confondion i'r Cyngor Llawn, sy'n cyfarfod ar y nos Fawrth gyntaf o bob mis (heblaw am fis Awst). Mae gan y Pwyllgor Cynllunio yr hawl i weithredu.

**Prif ddyletswyddau'r Cyngor yw:**

. rhoi cymorth ariannol, gweinyddol ac ysgrifenyddol i i brosiectau yn y dref;

· rheoli Adeilad Yr Institiwt;

· cynnal a chadw rhai cysgodfanau bysus;

· rheoli nifer o ddigwyddiadau blynyddol a gynhelir gydol y flwyddyn ar draws y dref, er enghraifft Sul y Cofio, Cystadleuaeth Gerddi;

· Glanhau toiledau Mynwent newydd Llanbeblig;

· Cydweithio i lanhau strydoedd a thorri gwair;
· Gosod goleuadau Nadolig yn y dref bob blwyddyn;
· Cynnal a chadw Cofeb y dref.

# (3) Crynodeb o Weithgareddau'r Cyngor - 2020/21

Cyflwynir y crynodeb hwn o weithgareddau sydd wedi'i fodelu ar y saith nod llesiant a glustnodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sef:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gadarn
- Cymru iachach
- Cymru fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru o ddiwylliant byw a'r iaith Gymraeg yn ffynnu
- Cymru gyfrifol fyd-eang

Mae'r Ddeddf yn diffinio datblygu cynaliadwy fel proses o wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy gymryd camau, yn unol â'r

egwyddor o ddatblygu cynaliadwy, sy'n anelu at gyflawni'r nodau llesiant. Yn hyn o beth mae'r Cyngor yn cydnabod ei rôl o ran hyrwyddo datblygu cynaliadwy a'r modd y mae'n mynd ati i gyflawni ei ddyletswydd o dan y Ddeddf tra'n gweithio ar ran, a gyda'r, cymunedau lleol.

Mae'r nodau llesiant yn gwbl annatod oddi wrth ei gilydd ac yn egluro beth a olygir wrth lesiant Cymru. Mae'r Cyngor yn croesawu'r nodau llesiant hyn, a bydd yn rhoi'r nodau hyn wrth galon ei drefniadau cynllunio a gwneud penderfyniadau er mwyn gwella ansawdd bywyd yn gyffredinol (lles) o fewn ei ardal weinyddol.

Wrth gymhwyso'r nodau llesiant hyn i'r swyddogaethau, gweithgareddau a'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor feddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a chyrff cyhoeddus eraill, edrych ar atal problemau rhag codi, ac i gymryd ymagwedd fwy cydlynus. Mae llawer o'r nodau hyn a'r gweithgareddau a glustnodwyd yn gorgyffwrdd ac yn ategu ei gilydd.

Mae gweddill yr Adroddiad hwn yn cyfateb i'r 7 nod llesiant yn y Ddeddf.

Dylid nodi y bu i'r pandemig Covid-19 daro yn ystod mis Mawrth 2020. Mae rhan (4) o'r adroddiad yn rhoi sylw manylach i'r Pandemig. Gohiriwyd llawer o weithgareddau a chyfarfodydd o'r Cyngor yn ystod 2020/21. Fodd bynnag, mae'r Cyngor Tref yn chwarae rôl ganolog o fewn y gymuned, er mwyn lliniaru effaith Covid-19 ar y dref a'i thrigolion.

## Cymru Lewyrchus

Mae gan Y Cyngor gynrychiolwyr ar nifer o gyrff perthnasol yn y dref a thu hwnt, sy'n ceisio cyflawni cynlluniau sydd yn tyfu economi'r dref. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cyrff Llywodraethol Ysgolion;
- Canolfan Noddfa;
- Menter Adfywio Glannau a Thref Caernarfon;
- HWB Caernarfon;
- Cymdeithas Ddinesig Caernarfon;
- Grŵp Rheoli CADW;
- Cylch Cyfeillgarwch Trefi Caerog Gogledd Cymru;
- Ymddiriedolaeth Harbwr Caernarfon;
- Galeri;
- Gŵyl Fwyd Caernarfon.

Mae Caernarfon wedi ei gyfeillio gyda Landerneau (Llydaw) a Threlew (Patagonia).

Mae'r Cyngor Tref yn gweithio ar brosiect economi cylchol i ail-gylchu ac ail ddefnyddio adnoddau er budd y gymuned a gobeithir mai un o ddeilliannau'r prosiect fydd cynnydd yn y niferoedd sy'n ymweld â Stryd y Llyn (prif stryd masnachu'r dref).

# Cymru Gadarn

**“Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella'r amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynorthwyo cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a'r gallu i addasu i newid (megis newid yn yr hinsawdd)”.**

Mae’r Cyngor wedi buddsoddi mewn defnydd mwy effeithlon ac ecogyfeillgar o ffynonellau ynni, ac mae hyn wedi arwain at ostyngiad yn ei ôl-troed carbon a gostyngiad sylweddol mewn costau ynni.

Mae gosod drysau mewnol wedi lleihau ein costau ynni blynyddol yn sylweddol, ac mae defnyddio mwy o oleuadau ynni isel yn yr arddangosfeydd Nadolig wedi cael yr un effaith a hefyd wedi gostwng costau blynyddol y goleuadau Nadolig. Mae hyn wedi galluogi'r Cyngor i ehangu’r goleuadau Nadolig i rannau newydd o'r dref.

Mae pwyllgorau yn cael eu cynnal yn ddi-bapur lle bo modd ac mae hyn ar gynnydd. Yn arferol, mae cynghorwyr yn gorfod nôl unrhyw raglen Cyngor er mwyn arbed postio, ond nad hyn wedi bod yn anoddach yn ystod cyfnod Covid-19.

Rydym yn ailgylchu o fewn adeilad y Cyngor, ac yn ceisio defnyddio contractwyr lleol i leihau allyriadau carbon.

Mae metr dŵr wedi ei osod.

Gwneir taliadau trwy bancio ar-lein i arbed papur.

# Cymru Iachach

**´Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deëllir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol ´**

Mae’r Cyngor yn ceisio cefnogi mudiadau sydd yn hyrwyddo cadw’n iach, ac mae’r cyngor yn rhoi cefnodaeth ariannol i glybiau chwaraeon yn y dref.

Mae’r Maer yn cychwyn nifer o ddigwyddiadau yn lleol, ond roedd hyn yn anoddach yn ystod y flwyddyn oherwydd Covid-19.

Bydd y Cyngor yn mynychu cystadlaethau golff, bowlio a rali hen geir y Cylch Cyfeillgarwch Trefi Caerog. Ni fu i’r rhain gymryd lle yn 2020/21 oherwydd Covid-19.

Mae’r Cyngor wedi cynnig cefnogaeth ariannol sylweddol i grwpiau cymunedol er mwyn eu cynorthwyo i gefnogi trigolion bregus yng ngwyneb Covid-19 neu i barhau gyda’u gweithredoedd arferol mewn dulliau arloesol yn sgil yr her i fywyd cymunedol arferol yn sgil y pandemig.

## Cymru Fwy Cyfartal

**‘Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial waeth beth yw eu cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir ac amgylchiadau economaidd-gymdeithasol)’**

Mae'r Cyngor yn parhau i roi cymorth ariannol i nifer o amrywiol grwpiau ar draws y dref a hefyd yn cael ei gynrychioli gan Aelodau ar lawer iawn o grwpiau a sefydliadau cymunedol. Yn arferol nydd cyfraniad yn cael ei wneud tuag at grwpiau Gŵyl Fwyd Caernarfon, Gŵyl Caernarfon, Carnifal Caernarfon, Gŵyl Arall. Oherwydd eu bod wedi canslo oherwydd Covid-19 ni chafodd y rhain i gyd gyfraniad ariannol yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Cyngor yn parhau i fod yn gefnogwr CAB yng Nghaernarfon.

Mae Band Llanrug yn fand swyddogol i’r Cyngor ac yn ei gefnogi mewn sawl digwyddiad, er enghraifft Sul y Cofio a’r Noson Nadoligaidd.

Mae’r Cyngor yn llogi ystafelloedd am bris rhesymol i sicrhau cyfle cyfartal.

Mae mynediad i’r anabl a dolen clyw yn yr adeilad.

Mae’r Cyngor wedi comisiynu gwefan newydd i hwyluso cydymffurfio gyda gofynion deddfwriaethol.

Mae’r Cyngor yn trin y Gymraeg a’r Saesneg ar sail gyfartal ac yn sicrhau lle blaenllaw i’r Gymraeg yn ei holl weithgaredd.

## Cymru o gymunedau cydlynus

**'Cymunedau deniadol, hyfyw, diogel sydd â chysylltiadau da'.**

Wrth gyflawni ei gyfrifoldebau statudol ac ymgynghorol, mae’r Cyngor yn parhau i gymryd rhan mewn materion sy'n effeithio ar bawb ar hyd a lled y dref, gan gymryd ei amser i sicrhau ei fod yn gwneud y penderfyniadau gorau o ran cynllunio (rôl ymgynghorol), ac unrhyw fater arall sy’n codi er mwyn sicrhau’r canlyniadau gorau posibl i’r dref ac i'r cymunedau lleol.

Mae’r Cyngor wrth galon llawer iawn o amrywiol ddigwyddiadau a gweithgareddau cymunedol sy'n hyrwyddo ysbryd cymdogol ac yn gwella cydlyniant cymdeithasol. Roedd Covid-19 yn golgu fod llawer o ddigwyddiadau’n cael eu canslo yn ystod y flwyddyn.

Rydym wedi gosod cafnau blodau i geisio rhoi lliw yng nghanol y dref.

Mae'r Cyngor yn cynnal cystadleuaeth garddio yn flynyddol.

Uchafbwynt i drigolion lleol ydi'r noson troi goleuadau Nadolig ymlaen. Ni fu i'r Noson Tân Gwyllt gael ei gynnal.

Fel tref filwrol mae gan y Cyngor berthynas agos â'r Gwarchodlu Cymreig yn ogystal â'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig ac mae'r ddau yn Rhyddfreinwyr y Dref.

## Cymru o ddiwylliant byw a'r iaith Gymraeg yn ffynnu

**''Cymdeithas sy'n hybu ac yn diogelu diwylliant, treftadaeth, a'r iaith Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, a chwaraeon a hamdden"**

Caernarfon yw'r dref fwyaf Cymreig yng Nghymru mae i Gaernarfon hanes diddorol ac unigryw. Mae'r Cyngor yn cynnal ei gyfarfodydd yn y Gymraeg, a Chymraeg yw iaith weinyddol y Cyngor. Mae'r mwyafrif o'r gweithgareddau mae'r Cyngor yn cyfrannu tuag atynt, yn cymryd lle yn y Gymraeg.

Fel arfer, trefnir Gorymdaith Gŵyl Ddewi yn flynyddol sydd yn creu bwrlwm yn y dref ond yn anffodus cafodd hwn ei ganslo yn 2020/21 oherwydd Covid-19. Yn lle hyn cynhaliwyd cystadleuaeth ysgrifennu cerdd i ysgolion ar y thema "Caernarfon Heddiw", a bu i'r bardd Rhys Iorwerth feirniadu. Ffilmiwyd y plant yn darllen eu cerddi buddugol, a rhoddwyd hyn ar dudalen Facebook y Cyngor Tref.

## Cymru gyfrifol fyd-eang

**''Cenedl sydd, wrth wneud unrhyw beth i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a fyddai gwneud y cyfryw beth yn gyfraniad cadarnhaol i les ar lefel fyd-eang"**

Mae'r wybodaeth a nodir uchod yn dangos yn glir sut mae'r Cyngor yn cyfrannu tuag at wella lles pobl yn lleol. Gall y Cyngor fod yn falch iawn o'r rhan arweiniol y mae wedi cymryd, ac yn parhau i gymryd, mewn cymaint o agweddau o fywyd economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Caernarfon.

Drwy gadw ei ffocws ar ofynion pobl leol yn y dyfodol a pharhau i weithio mewn partneriaeth agos â chymunedau lleol, a rhanddeiliaid allweddol eraill sydd â chylch gwaith ehangach, gan gynnwys Cyngor Gwynedd, gall Cyngor Tref Caernarfon fod yn hyderus ei fod yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at les cenedlaethol ac yn wir at les ar lefel fyd-eang.

## (4) Covid-19

Pan ddechreuodd y Pandemig roedd y Clerc wedi creu Canllawiau (wedi eu seilio ar ganllawiau oedd yn cael eu defnyddio gan Gyngor Tref Amwythig) er mwyn dyrannu arian o'r Gronfa Argyfwng i sefydliadau oedd yn gwneud cais am arian i'w cynorthwyo yn ystod yr argyfwng, a bu i nifer o sefydliadau yn y dref elwa o hyn.

Sefydlwyd panel i ystyried ceisiadau am arian o'r Gronfa oedd yn cynnwys y 4 Cydlynydd Cofis Curo Corona (sef grŵp o wirfoddolwyr), y Clerc a'r Dirprwy Glerc.

Roedd yr aelodau wedi cytuno i'r canllawiau roedd y panel yn ei ddefnyddio, ac roedd y Canllawiau yn sicrhau fod gan yr aelodau lais yn y penderfyniadau.

Roedd nifer o aelodau'r Cyngor Tref wedi gweithio'n galed yn ystod y cyfnod er mwyn cynorthwyo trigolion bregus y dref.

Roedd Covid-19 yn golygu hefyd fod y Cyngor yn gorfod gwneud pethau ychydig yn wahanol. Un enghraifft o hyn oedd Sul y Cofio. Ar y pryd roedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd "cyfnod atal byr" yn cael ei gyflwyno ar draws Cymru i helpu i ddod ag achosion o'r coronafeirws o dan reolaeth. Gan hynny ni chynhaliwyd y digwyddiad Sul y Cofio ar y Maes ar yr 8fed o Dachwedd. Roedd y penderfyniad wedi cael ei wneud mewn ymgynghoriad efo'r Heddlu, Cyngor Gwynedd a'r Lleng Brydeinig Frenhinol.

Fodd bynnag, ffilmiwyd gwasanaeth rai diwrnodau yn gynt, a rhoddwyd hwnnw ar dudalen Facebook y Cyngor Tref. Cafwyd adwaith dda i hwn.

## (5) Crynodeb Ariannol - 2020/21

Roedd gan y Cyngor gyllideb o £188,397 a godwyd yn bennaf o braesept y Cyngor ac a ategwyd gan incwm a godwyd ar gyfer darparu ystod o wasanaethau. Prif feysydd cyllideb 2020/21 oedd :

| | **Gwariant (£)** | **Incwm (£)** |
|---|---|---|
| **Gweinyddiaeth** | 122,277 | |
| **Adeilad yr Institiwt** | 55,134 | 59,704 |
| **Digwyddiadau bach a chyfraniadau** | 15,822 | 2,000 |
| **Digwyddiadau mawr a gwasanaethau** | 49,067 | 25,184 |
| **Goleuadau Nadolig** | 33,072 | |
| **Llog Banc** | | 87 |
| | | |
| | **275,372** | **86,975** |
| | | |
| **Praesept** | | 198,489 |
| | | **285,465** |

# Atodiad

**Y Cynghorwyr**

**Peblig:**

| Enw | Cyfeiriad | Rhif Ffôn |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd W. Tudor Owen | Langdale, Uxbridge Square, Caernarfon LL55 2RE | (01286) 672436 |
| Y Cynghorydd Eiriona Rees Hughes | 1 Foel y Rhiw, Nebo, Caernarfon, LL54 6EF | 07854770569 |
| Y Cynghorydd Brenda Owen | Langdale, Uxbridge Square, Caernarfon LL55 2RE | (01286) 672436 |
| Y Cynghorydd Kenny Richards | 1 Bryn Gwynedd, Lôn Fictoria, Caernarfon LL55 2RN | (01286) 238072 |
| Y Cynghorydd Jason Wayne Parry | Enaid y Wawr, 23 Cefn Dyffryn, Groeslon, Caernarfon LL54 7TQ | 07900594279 |

**Cadnant:**

| Enw | Cyfeiriad | Rhif Ffôn |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Maria Veronica Sarnacki | 64 Cae Mur, Caernarfon, LL55 1DS | (01286) 512399 |
| Y Cynghorydd Cemlyn Williams | Y Bwthyn, Ffordd Bethel, Caernarfon, LL55 1EB | (01286) 674977 |
| Y Cynghorydd Stuart Sage | 31 Maesincla, Caernarfon, LL55 1BY | (01286) 677138 |
| Y Cynghorydd Dawn Lynne Jones | 16 Maes Hyfryd, Caernarfon | (01286) 674425 |

**Menai:**

| **Enw** | **Cyfeiriad** | **Rhif Ffôn** |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Ioan Ceredig Thomas | Strade, 65 Cae Gwyn, Caernarfon, LL55 1LL | 07810648647 |
| Y Cynghorydd Wil Lloyd Davies | Llanddwyn, 10 Ffordd Menai, Caernarfon LL55 1LE | (01286) 671802 |
| Y Cynghorydd Eleri Lovgreen | Tanygraig, Llys Gwyn, Caernarfon, LL55 1EN | (01286) 674314 |
| Y Cynghorydd Ann Hopcyn | Penygraig, Ael y Garth, Caernarfon, LL55 1HA | (01286) 674024 |

**Seiont:**

| **Enw** | **Cyfeiriad** | **Rhif Ffôn** |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd W. Roy Owen | 39 Maes Meddyg. Gallt y Sil , Caernarfon LL55 2SF | (01286) 672618 |
| Y Cynghorydd Keith Jones | 2 Llys y Garn, Caernarfon, LL55 2UT | 07507006887 |
| Dirprwy Faer Y Cynghorydd Cai Larsen | Bronwylfa, Ffordd y Gogledd, Caernarfon, LL55 1BE | (01286) 676026 |
| Y Cynghorydd Richard Thomas | Bryn Meillion, Lon Ddewi, Caernarfon, LL55 1EL | 07920263234 |